***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 395 (Cy.41)

# CYFLOGAETH AMAETHYDDOL, CYMRU

CYFLOGAU AMAETHYDDOL

## Gorchymyn y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2007

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *14 Chwefror 2007* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Mawrth 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(1) o Ddeddf Cyflogau Amaethyddol 1948(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2007, daw i rym ar 1 Mawrth 2007 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Gorchymyn Pwyllgorau Cyflogau Amaethyddol (Ardaloedd) 1974**

**2.** Mae Gorchymyn Pwyllgorau Cyflogau Amaethyddol (Ardaloedd) 1974(**2**) wedi'i ddiwygio fel a ganlyn:

(a) yn Erthygl 3(1) yn lle'r gair "Wales" rhodder y geiriau "an agricultural wages committee for the combination of all the counties in Wales";

(b) yn Rhan I o'r Atodlen, dileer y geiriau "Counties in Wales Clwyd Dyfed Gwent Gwynedd Powys"; ac

(c) yn Rhan II o'r Atodlen, dileer y geiriau "Counties in Wales Mid Glamorgan, South Glamorgan and West Glamorgan".

(**1**) 1948 p. 47. Diwygiwyd adran 2(1) o Ddeddf 1948 gan adran 149 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (c. 38). Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd y swyddogaethau sy'n arferadwy o dan adran 2(1) o Ddeddf 1948 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1974/515, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1981/179 ac O.S. 1989/1173.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*

14 Chwefror 2007

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu un pwyllgor cyflogau amaethyddol ar gyfer cyfuniad o'r holl siroedd yng Nghymru drwy wneud y diwygiadau angenrheidiol i Orchymyn Pwyllgorau Cyflogau Amaethyddol (Ardaloedd) 1974.